**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Rocio Cifuentes
Comisiynydd Plant Cymru

14 Rhagfyr 2022

**Gwaith craffu dilynol blynyddol**

Annwyl Rocio

Diolch am roi o’ch amser ar 17 Tachwedd 2022 i drafod adroddiad blynyddol a chyfrifon 2021-22.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, fe wnaethoch chi gytuno’n garedig i’r canlynol:

- Rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch a oedd pobl ifanc yn rhan o'r broses o symud swyddfa'r Comisiynydd Plant o Abertawe i Bort Talbot, ac i ba raddau yr ymgynghorwyd â hwy.
- Rhannu’r templed asesiad o’r effaith ar hawliau plant gyda ni, yr ydych wedi’i rannu’n ddiweddar â Llywodraeth Cymru ar gyfer eu gwaith ar ddileu elw o ofal plant sy’n derbyn gofal, a’ch ymateb manwl i ymgynghoriad y Llywodraeth ar y mater hwnnw.

At hynny, gwnaethoch gytuno i ymateb yn ysgrifenedig i unrhyw gwestiynau nad oeddem yn gallu eu gofyn i chi yn ystod y sesiwn ei hun. Dyma nhw:

## Rheolaeth ariannol

- Yn yr Adroddiad Blynyddol, gwnaeth eich Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg nodi risg yn ymwneud â chynnwys eich swyddfa yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018. A allwch egluro’r risg hon, y mesurau y bu’n rhaid i chi eu rhoi ar waith oherwydd y dynodiad a sut y mae’n effeithio ar drefniadau rheoli cyllidebol a chyllidol y sefydliad?

## Tlodi plant

- O ystyried nad yw rhai o'r ysgogiadau ariannol i fynd i'r afael â thlodi plant wedi'u datganoli, pa feysydd polisi y byddech am weld Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ei hadnoddau arnynt er mwyn sicrhau newid i blant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel?

- Beth yw eich barn am effaith debygol y cynnydd mewn prisiau ynni a chostau byw ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus craidd i blant fel addysg a gofal cymdeithasol? A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau hyd yma gyda Gweinidogion Cymru neu Awdurdodau Lleol am effaith hyn ar blant?

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe bai'r wybodaeth hon yn dod i law heb fod yn hwyrach na dydd Iau 12 Ionawr, er mwyn iddi allu cyfrannu at ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Ar ôl i chi ymddangos gerbron y Pwyllgor, buom yn trafod Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a'i chynllun gweithredu cysylltiedig ar gyfer gwneud yn fawr o incwm, ar gyfer 2020 i 2021. Gwnaethom nodi eich galwadau ar i Lywodraeth Cymru osod targedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau tlodi plant, mesurau brys i fynd i'r afael â phlant yn llwglyd, a chynllun peilot trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i blant.

At hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am y cynigion hyn.

Yn gywir

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.